# Mesur Tai (Cymru) 2011

**2011 mccc 5**

## RHAN 1

ATAL DROS DRO YR HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG

## PENNOD 4

DIRYMU CYFARWYDDYD I ATAL DROS DRO
YR HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG

### 23 Dirymu cyfarwyddyd: pŵer i wneud cais

(1) Caiff awdurdod tai lleol wneud cais i Weinidogion Cymru i ddirymu cyfarwyddyd a ddyroddwyd o dan y Rhan hon os yw'r awdurdod yn dod i'r casgliad bod y cyflwr a ddisgrifir yn is-adran (2) yn bodoli.

(2) Y cyflwr yw naill ai—

(a) nad yw'r galw am dai cymdeithasol y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud ag ef yn sylweddol uwch nac yn debygol o fod yn sylweddol uwch na'r cyflenwad o dai cymdeithasol, neu

(b) hyd yn oed os yw'r galw yn sylweddol uwch neu'n debygol o fod yn sylweddol uwch na'r cyflenwad, nad yw'r anghydbwysedd rhwng y galw a'r cyflenwad yn debygol o gynyddu o ganlyniad i arfer yr hawl i brynu a hawliau cysylltiedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 23 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 90(2)**

**I2** A. 23 mewn grym ar 3.9.2012 gan O.S. 2012/2091, **erglau. 1(2)**, 2

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 03/09/2012.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Tai (Cymru) 2011, PENNOD 4. (See end of Document for details)*

## 24 Cais i ddirymu

Rhaid i gais awdurdod tai lleol i Weinidogion Cymru i ddirymu cyfarwyddyd a ddyroddwyd o dan y Rhan hon fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo esbonio pam y mae'r awdurdod wedi dod i'r casgliad bod y cyflwr a ddisgrifir yn adran 23(2) yn bodoli.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 24 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 90(2)**

**I4** A. 24 mewn grym ar 3.9.2012 gan O.S. 2012/2091, **erglau. 1(2)**, 2

## 25 Penderfyniad Gweinidogion Cymru ar y cais

(1) Caiff Gweinidogion Cymru wrthod cais awdurdod tai lleol o dan adran 23 (heb iddynt ystyried a yw is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ei ganiatáu ai peidio) os ydynt o'r farn bod yr awdurdod wedi methu â chydymffurfio â gofyniad a osodwyd o dan adran 27 mewn perthynas â'r cais.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru ganiatáu'r cais os ydynt yn cytuno â chasgliad yr awdurdod ynghylch pam y mae'r cyflwr a ddisgrifir yn adran 23(2) yn bodoli.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn caniatáu'r cais, rhaid iddynt hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig o'r ffaith honno a bydd y cyfarwyddyd yn peidio â chael effaith ar y dyddiad y rhoddir y cyfryw hysbysiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 25 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 90(2)**

**I6** A. 25 mewn grym ar 3.9.2012 gan O.S. 2012/2091, **erglau. 1(2)**, 2

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 03/09/2012.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Tai (Cymru) 2011, PENNOD 4.